

***Adroddiad
Blynyddol
y
Llywodraethwyr
i
Rieni***



2016/2017

Adroddiad Blynyddol Y Llywodraethwyr i Rieni 2016/2017

Adroddiad y Llywodraethwyr

Annwyl Riant / Warcheidwad

Mae'n anrhydedd cael cyfle i gofnodi rhai sylwadau fel Cadeirydd y Corff Llywodraethol ar ôl blwyddyn arall brysur ym mywyd yr ysgol. Yn sicr mae pob llywodraethwr yn falch o fod yn rhan o deulu Ysgol Gyfun Gymraeg Bro Myrddin ac yn ymfalchïo yn ei holl lwyddiannau.

Yn gyntaf, hoffwn ddiolch i bod aelod o staff yr ysgol am eu hymroddiad i'r ysgol. Heb eich gwaith diflino fe fyddai bywyd academiaidd ac allgyrsiol ein disgyblion dipyn tlotach o ran cyfleon o bob math.

Yn ail, rhaid canmol y disgyblion am eu llwyddiannau ymhob maes. Mae darllen adroddiad y Pennaeth yn ein cyfarfodydd yn ein llenwi gyda balchder. Rydym yn cael ein synnu a'n plesio, bob tro, gyda'r holl ystod o weithgareddau sy'n cael eu cynnig.

Yn drydydd, diolch i chi, rieni a gwarcheidwaid, am eich cefnogaeth i'r bobl ifainc ac i'r ysgol. Rydym yn sylweddoli ac yn gwerthfawrogi eich bod yn gorfod aberthu mewn nifer o ffyrdd gwahanol er mwyn sicrhau'r addysg gorau posibl i'ch plant.

Yn bedwaredd, ar ran y llywodraethwyr, hoffwn ddiolch yn ddiffuant i'r Gymdeithas Rhieni ac Athrawon sydd yn cynnal gweithgareddau i gymdeithasu ac i godi arian ar gyfer addysg y plant.

Yn bumed, diolch i'm cyd lywodraethwyr am eu cyfraniad amhrisiadwy i'r ysgol. Mae'n rôl allweddol ym myd addysg heddiw.

Yn olaf, diolch i Bennaeth yr Ysgol a'r uwch dim arwain am eu harweiniad cadarn a phwrpasol.

Mae yna groeso i chi gysylltu gyda mi, fel Cadeirydd y Corff Llywodraethol, os hoffech chi drafod rhywbeth yn benodol neu i gael rhagor o wybodaeth ynglŷn ag unrhyw agwedd o'r adroddiad hwn.

Diolch yn fawr i chi am eich cefnogaeth a'ch cydweithrediad.

Gareth Jones
Cadeirydd y Corff Llywodraethol

Adroddiad Y Pennaeth

Dyma flwyddyn academiaidd lwyddiannus eleni eto. Mae canlyniadau arholiadau cryf iawn wedi ein gweld yn cyrraedd y brig o ran ysgolion y Sir, y teulu a Chymru. Bu'n flwyddyn arbennig o heriol gyda'r holl newidiadau i'r arholiadau TGAU. Hoffwn ddiolch yn arbennig i ddisgyblion, rhieni a staff am eu gwaith caled a'u hymrwymiad. Mae'r athrawon a'r myfyrwyr wedi parhau i weithio'n galed er mwyn cynnal y safonau uchel a bennwyd yn Ysgol Bro Myrddin dros y ddegawd ddiwethaf. Rydym yn un o 'ysgolion arloesi' newydd Cymru o dan gynllun Llywodraeth Cynulliad Cymru ac rydym hefyd ar fin cychwyn ein hail flwyddyn fel ysgol arloesi greadigol trwy gydweithrediad â Chyngor Celfyddydau Cymru. Rydym yn rhan o gynllun cyffrous Polli:Nation er mwyn gwella amgylchedd yr ysgol, yn ysgol arweiniol yn y cynllun Rhaglen Dysgu Byd Eang ac yn ymgeisio ar hyn o bryd ar gyfer y faner Masnach Deg. Yn ychwanegol mae'r ysgol yn parhau yn ganolfan i'r Rhaglen Athrawon Rhagorol Olevi a'r Rhaglen Gwella Athrawon ac ar fin mynd i bartneriaeth gyda'r Athrofa a chwe ysgol Gymraeg leol ar gyfer datblygu cynllun newydd arloesol o ran hyfforddi myfyrwyr.

Bu llawer o lwyddiannau eraill hefyd a gofnodwyd ar wefan yr ysgol ac yn ein papurau lleol a thrwy Twitter a Facebook. Byddwch hefyd yn gweld rhestr o lwyddiannau eraill fel rhan o'r adroddiad hwn. Rydym yn falch o allu adrodd ar ystod eang o gyflawniadau a sicrhawyd gan ein disgyblion a'n staff talentog.

Ein nod yn flynyddol yw cynnal a chodi safonau uchel yr ysgol gan gynnig dewis o gwricwlwm eang a phrofiadau allgyrsiol helaeth. I sicrhau hyn mae'n bwysig ein bod yn parhau i fod yn agored ac yn onest am bob agwedd ar wella'r ysgol ac yn ein barn ni, mae barn disgyblion a rhieni yn rhan annatod o hynny. Rydym yn datblygu Llais y Disgybl ymhob agwedd o fywyd ysgol ac yn gweithredu ar y canlyniadau. Rydym yn cynllunio i gryfhau llais y Cyngor Ysgol a'r Cyngor Chwaraeon gan ein bod yn awyddus i sicrhau ein bod yn ymwybodol o farn pawb sy'n gysylltiedig gyda'r ysgol. Gofynnwn i chi, felly, i ddefnyddio'r holiadur a ddosberthir yn ystod nosweithiau rhieni er mwyn i ni gael gwybod eich barn ar ein perfformiad.

Mae cyfathrebu'n allweddol i ni ac rydym yn diweddarau ein gwefan yn ddyddiol i sicrhau defnyddioldeb. Yn sicr mae ein gwefan newydd yn fwy hylaw ac yn rhoi holl fanylion diweddar yr ysgol. Mae gennym hefyd ap sy'n bosibl ei defnyddio ar unrhyw ffôn glyfar. Mae ein taith ddigidol yn datblygu ac rydym yn edrych ymlaen ar gyfer cydweithio gyda arweinwyr digidol o blith y disgyblion yn y flwyddyn academiaidd nesaf.

I gloi'r adroddiad hoffem ddiolch yn arbennig i'r Llywodraethwyr sy'n rhoi yn ddiflino o'u hamser i fynychu pwyllgorau amrywiol yn rheolaidd er mwyn trafod polisïau a gweithgareddau'r ysgol. Diolch hefyd i'r holl staff ac i chithau'r rhieni.

Dr Llinos Jones
Pennaeth

Cynnydd ar argymhellion Estyn yn Adroddiad Arolygu 2015

A1. Codi safonau cyflawniad y bechgyn

Mae codi safonau cyflawniad y bechgyn yn un o flaenoriaethau ein Cynllun Datblygu Ysgol ers 2015. Trwyddi draw, mae'r cynnydd ym mherfformiad y bechgyn wedi bod yn dda iawn yn y ddau gyfnod allweddol yn 2016, gan gynnwys L2+ a'r DPC yn CA4. Serch hynny, mae'r bwlch rhwng perfformiad bechgyn a merched yn dal i fod yn sylweddol mewn ambell i ddangosydd. Mae'r ysgol yn cydnabod bod angen parhau i hoelio sylw penodol ar berfformiad bechgyn er mwyn dileu'r bwlch ymhob un dangosydd ac er mwyn sicrhau bod yr holl ddisgyblion yn cyrraedd eu potensial. Mae'r ysgol wedi hir rhagdybio y bydd y bwlch yn 2017 yn CA4 yn sylweddol. Tynnwyd sylw ESTYN ac ERW. Nid agwedd 'orchfygaidd' yw hynny ond derbyn sefyllfa unigryw sydd yn bodoli am resymau academaidd a chymdeithasol y tu hwnt i reolaeth yr ysgol. Fodd bynnag o 2018 ymlaen bydd y llinell datblygu yn unioni ei hunain.

A2. Cryfhau a chysoni ansawdd yr addysgu ar draws yr ysgol a rhannu'r arferion gorau

Mae Cynllun Datblygu'r ysgol ers 2015 yn blaenoriaethu'r argymhelliad hwn ac eisoes mae cynlluniau manwl ar y gweill. Sefydlwyd Gweithgor Addysgu a Dysgu. Yn ogystal, sefydlwyd 'triawdau dysgu' er mwyn rhannu a lledaenu arfer da ar draws yr ysgol. Datblygwyd yr ysgol yn ganolfan i'r Rhaglen Athrawon Rhagorol Olevi a'r Rhaglen Gwella Athrawon, ac fe hyfforddwyd dwy athrawes fel hwyluswyr ar gyfer y cynllun. Yn sgil hynny, fe ddarparwyd cynllun 'datblygu' ar gyfer athrawon penodol o fewn yr ysgol, ac fe sefydlwyd tîm penodol o athrawon i rannu arfer da. O ganlyniad, wrth arsylwi gwersi a chraffu llyfrau yn gyson dros y flwyddyn, gwelwyd cynnydd clir yn ansawdd yr addysgu.

A3. Datblygu'r defnydd a dealltwriaeth o ddata ymysg rheolwyr a llywodraethwyr

Bu'r argymhelliad yn un o flaenoriaethau Cynllun Datblygu 2016-17 a gosodwyd targedau pendant. Crëwyd cyfres o ddogfennau data pwrpasol er mwyn gwella ymwybyddiaeth athrawon, rheolwyr canol a llywodraethwyr parthed data perfformiad yr ysgol. Yn ogystal â'r cymariaethau arferol – teulu data'r llywodraeth, grŵp meincnodi prydau ysgol am ddim (PYADd) a chyfartaledd yr ALL a Chymru – mae'r dadansoddiadau yn cynnwys cymharu perfformiad yr ysgol (dros gyfnod o bedair blynedd) yn erbyn ysgolion gyda'r canrannau PYADd isaf. Maent, hefyd, yn tynnu sylw at safle'r ysgol mewn ystod o ddangosyddion ac mewn ystod eang o ffyrdd, gan gynnwys Llinell Atchwel ERW a Llywodraeth Cymru. Darparwyd hyfforddiant mewnol ar gyfer athrawon, rheolwyr canol a llywodraethwyr ac o ganlyniad, mae ymwybyddiaeth rheolwyr a llywodraethwyr yr ysgol o ddata perfformiad ysgolion yn gyffredinol, a sefyllfa'r ysgol yn benodol, wedi gwella'n sylweddol. Ers 2016 mae hynny yn cynnwys ymwybyddiaeth Penaethiaid adrannau o bwysigrwydd canlyniadau lefel UG/Uwch a thrwy hynny, felly, ein defnydd o wybodaeth data ALPS.

A4. Miniogi'r cysylltiad rhwng prosesau hunanarfarnu a chynllunio ar gyfer gwelliant

Bu'r argymhelliad yn un o flaenoriaethau Cynllun Datblygu 2016-17 a ffurfiwyd Cynllun Datblygu Ysgol Ôl-Arolwg a Chynllun Datblygu Adran newydd. Y CDY bellach yn gosod seiliau cadarn i'w thargedau a gweithgareddau drwy grynhoi'r sefyllfa parthed meysydd i'w datblygu. Law yn llaw gyda thargedau a meini prawf llwyddiant ar gyfer pob blaenoriaeth, mae hyn yn gosod gwaelodlin er mwyn i'r ysgol fesur ei chynnydd yn effeithiol. Ar ddiwedd pob blaenoriaeth o fewn y CDY, mae'r ysgol wedi gosod cyfres o gwestiynau pwrpasol iawn – cerrig milltir – er mwyn sicrhau bod yr ysgol yn gwneud cynnydd da yn erbyn y meini prawf llwyddiant. Ceir tystiolaeth bendant o gofnodion pob corff llywodraethol llawn bod safonau wedi cael eu trafod

Ysgol Gyfun Gymraeg Bro Myrddin Aelodau'r Corff Llywodraethol 2016-17

Cadeirydd: Mr Gareth Jones

Is-gadeirydd: Mr Alun Charles.

Clerc: Miss Siân Thomas, Clerc y Llywodraethwyr, Ysgol Gyfun Gymraeg Bro Myrddin, swyddfa@bromyrdin.sirgar.sch.uk

Mae 20 o aelodau ar y Corff Llywodraethol

Pennaeth

6 Rhiant Llywodraethwr

5 Cynrychiolydd yr ALI

2 Gynrychiolydd Athrawon

1 Cynrychiolydd Staff

5 Cynrychiolydd Cyfetholedig sy'n aelodau cymunedol

Rhieni Llywodraethwyr *(cyfnod yn dod i ben)*

Mr Nigel Cooke (04.10.19)

Mr Mydrian Harries (09.11.20)

Mrs Sian Davies (09.11.20)

Mr Terry Abnett (09.11.20)

Mrs Iola Wyn (04.12.20)

Ms Catrin James (03.09.2021)

Llywodraethwyr Cymunedol *(cyfnod yn dod i ben)*

Mr Alun Charles (16.03.19)

Mr Elfed Davies (18.01.21)

Mrs Anne Loughran (18.01.21)

Mrs Luned Thomas (29.03.21)

Parchedig Beti Wyn James (29.03.21)

Cynrychiolwyr Athrawon *(cyfnod yn dod i ben)*

Mr Aled Williams (31.08.21)

Dr Huw Griffiths (25.09.20)

Cynrychiolwr Staff *(cyfnod yn dod i ben)*

Mrs Meinir McLellan (24.5.19)

Llywodraethwyr yr ALI *(cyfnod yn dod i ben)*

Parchedig Tom Defis (27.01.19)

Mr Gareth O Jones (Cadeirydd) (04.09.19)

Cynghorydd Peter Hughes-Griffiths (25.09.20)

Cynghorydd Mair Stephens (25.09.20)

Mr Arwel Lloyd (09.04.

Blaenoriaeth strategol YBM	Camau gweithredu yn y Cynllun Datblygu Ysgol
Codi safonau (gyda ffocws arbennig ar gyflawniad y bechgyn)	- Datblygu capasiti yr UDA gan greu UDAEstynedig dros dro i ganolbwyntio ar dangyflawni bechgyn - Ymweliad ERW 2 i ganolbwyntio ar dangyflawni bechgyn o ran craffu ar lyfrau - Adolygiadau adrannol o Fedi 2017 i ganolbwyntio yn benodol ar brofiadau bechgyn CA3 - Sicrhau cwricwlwm addas ar gyfer y disgyblion trwy ychwanegu cyrsiau amrywiol - Datblygu gwaith y gweithgor tangyflawni bechgyn - Datblygu rôl rhieni yn y broses o godi safonau bechgyn
Cryfhau a chysoni ansawdd yr addysgu	- Y gweithgor Addysgu a Dysgu i barhau i ddatblygu addysgeg o fewn yr ysgol - Gwella ansawdd y cwestiynu o fewn yr ystafell ddosbarth - Sicrhau disgwyliadau uchel o ddisgyblion ar draws gwersi a darparu cyfleoedd i ymestyn y disgyblion mwyaf galluog - Datblygu strategaethau gwahaniaethu ar draws gwersi gallu cymysg - Datblygu triawdau trawsbynciol - Creu model Dysgu ac Addysgu ysgol gyfan - Rhannu arferion da o ran addysgeg i weddill staff yr ysgol mewn sesiynau DPP penodol - Parhau i ddatblygu'r ysgol yn ganolfan i'r Rhaglen Athrawon Rhagorol Olevi a'r Rhaglen Gwella Athrawon
Ymateb i flaenoriaethau cenedlaethol	- Datblygu'r ysgol fel ysgol arloesol o ran y cwricwlwm trwy gydweithio gyda LICC ac ERW ar gynlluniau moderneiddio - Datblygu cynllun ail flynedd yr ysgol greadigol arweiniol - Sicrhau DPP effeithiol i bob aelod o staff o fewn yr ysgol - Parhau ar y daith ddigidol drwy ddarparu hyfforddiant priodol, hyfforddi arweinwyr digidol a darparu hyfforddiant diogel - Datblygu capasiti arweinyddiaeth - Datblygu llythrennedd a rhifedd ar draws y cwricwlwm - Datblygu'r fagloriaeth - Datblygu prosiect iaith ar Daith - Ymateb i adroddiad Furlong - Datblygu Cymreictod yr ysgol
Datblygu amgylchedd gynhaliol yr ysgol	- Datblygu cynllun i gael Llain 3G ar dir yr ysgol - Datblygu gwaith y pwyllgor Eco ac ymgeisio am faner Masnach Deg - Ymateb i broblemau cynyddol iechyd a lles emosiynol

Trefn y dydd ym Mro Myrddin

Trefnir yr amserlen ar batrwm o 5 gwrs y dydd dros gyfnod o ddeg diwrnod. Isod gweler amseroedd y sesiynau.

8.55-9.05	Cofrestru		10.20-10.35	Egwyl		12.35-1.35	Cinio
9.05-9.20	Gwasanaeth		10.35-11.35	Gwers 2		1.35-2.35	Gwers 4
9.20-10.20	Gwers 1		11.35-12.35	Gwers 3		2.35-3.35	Gwers 5

Dyddiadau Gwyliau Ysgol 2017-18

Tymor	Dechrau	Hanner Tymor		Diwedd
		Dechrau	Diwedd	
Hydref 2017	5 Medi	30 Hydref	3 Tachwedd	22 Rhagfyr
Gwanwyn 2018	8 Ionawr	19 Chwefror	23 Chwefror	29 Mawrth
Haf 2018	17 Ebrill	28 Mai	1 Mehefin	20 Gorffennaf
Dyddiau HMS Penodol – Dydd Llun Medi 4, Dydd Llun Ebrill 16 Dyddiau HMS ar ddisgresiwn yr ysgol – Dydd Gwener, Tachwedd 17; Dydd Llun, Gorffennaf 23; Dydd Mawrth, Gorffennaf 24.				

Penodiadau staff newydd ar gyfer Medi 2017:

Mr Dyfed James – Cyd-lynydd Anghenion Dysgu Ychwanegol.

Miss Lisa Jones – Athrawes yn yr Adran Gymraeg.

Miss Ceris James – Athrawes yn yr Adran Gymraeg (cyfnod mamolaeth).

Mr Carwyn Bebb – Cynorthwydd.

Cysylltiadau â'r gymuned

Defnyddir yr ysgol yn rheolaidd gan glybiau a chymdeithasau allanol. Rydym wedi cydweithio'n agos gyda'r Urdd, ein swyddog 5x60 a'n swyddog ieuenctid er mwyn darparu rhaglenni darpariaeth drwy gyfrwng y Gymraeg y tu allan i oriau ysgol neu yn ystod gwyliau ysgol.

Mae gennym hefyd gysylltiadau agos gyda'n Heddwes Cyswllt Ysgol, PC Cath Williams. Mae hi wedi ein cefnogi yn dda iawn yn ein rhaglen ABCh ac wedi cydweithio'n agos iawn gyda'n Penaethiaid Blwyddyn a'r Uwch Dîm Arwain. Mae ei chynghor parod a'i gwaith wedi bod yn werthfawr iawn i ni. Yn flynyddol daw lluo o siaradwyr gwadd i'r ysgol i gynnig cymorth gan gynnwys cynrychiolwyr o'r banciau lleol, busnesau lleol a cholegau.

Mae ein pwyllgor dyngarol yn gweithio'n galed yn flynyddol i godi symiau sylweddol o arian i achosion dyngarol lleol a chenedlaethol.

Adroddiad blynyddol – Cyllid

Mae gan y Llywodraethwyr is-bwyllgor Cyllid ac Adeiladau sy'n cyfarfod unwaith y tymor i drafod y pynciau penodol hyn. Yn y flwyddyn 2016-17 llwyddodd yr ysgol unwaith eto i orffen y flwyddyn ariannol o fewn y gyllideb. Rydym yn gobeithio ar gyfer y flwyddyn 2017-18 y byddwn hefyd yn medru llwyddo i wneud hynny.

Datganiad Ariannol yr ysgol 2016/17

Gwariant		Cyllideb	Gwirioneddol
	Cyflogau	3,303,997	3,258,845
	Adeiladau	358,726	359,964
	Cyflenwadau a Gwasanaethau	456,106	431,846
		4,118,829	4,050,655
Incwm		Cyllideb	Gwirioneddol
	Derbynebau Cwsmeriaid	203,516	220,764
	Grantiau'r Llywodraeth	3,885,640	3,927,405
	Grantiau eraill	34,596	85,730
		4,123,752	4,233,899
Gwarged / Diffyg		4,923	183,244

Perfformiad Disgyblion

Fel y nodwyd, gwelwyd canlyniadau arbennig o dda gan yr ysgol eleni eto.

CA3 Perfformiad Lefel 5+							
	2014	2015	2016	2017	Teulu 2017	ALI 2017	Cymru 2017
Cymraeg	91.0%	95.3%	95.4%	97.8%	95.8%	92.1%	93.5%
Saesneg	93.0%	92.2%	93.4%	97.1%	95.2%	90%	90.5%
Mathemateg	94%	95.3%	96.7%	98.6%	95.4%	92.4%	90.8%
Gwyddoniaeth	96.0%	96.9%	96.7%	96.4%	97.9%	94.1%	93.5%
DPC	91.8%	89.8%	94.1%	96.4%	93.2%	88.4%	87.4%

CA4							
	2014	2015	2016	2017	Teulu 2017	ALI 2017	Cymru 2017
L2 Cymraeg	75%	83.3%	83%	84.1%	80.3%	72.7%	73.2%
L2 Saesneg	79%	81.7%	83%	76.6%	74.7%	68.7%	63.6%
L2 Mathemateg	79%	88.5%	86%	80.5%	75.3%	64.2%	62.5%
L2 Gwyddoniaeth	73%	84.7%	82%	93.8%	88.1%	78.8%	73.2%
L1	100%	100%	99%	99.2%	99.5%	98%	94%
L2	90.0%	95%	88%	79.7%	80%	72%	67%
L2+	72.0%	82%	82%	72.7%	69%	57%	55%
DPC	70%	79%	80%	73.4%	69%	56%	53%
Pwyntiau (capio)	368.2	383	377	359	358	335	323.5
Pwyntiau (cap 9)	Mesur newydd yn 2017			390	391	360	350
Pwyntiau (cap 8)	Mesur newydd yn 2017			360	359	336	325

Crynodeb o Berfformiad Ysgolion Uwchradd

Crynodeb o Gyraeddiadau Ysgol Uwchradd	Rhif ALI / Ysgol	669/4056
---	-------------------------	-----------------

	Canran y disgyblion 15 oed a:						
	Gofrestrodd am o leiaf un cymhwyster	Enillodd drothwy Lefel 1	Enillodd Drothwy Lefel 2	Enillodd drothwy Lefel 2 Cynwysedig	Sgôr bwyntiau gyfartalog 9 fesul disgybl wedi capio	Sgôr bwyntiau gyfartalog 8 fesul disgybl wedi capio	Sgôr pwyntiau cyfartalog eang
	Nifer y disgyblion 15 oed a oedd ar y gofrestr yn Ionawr 2016: 128						
Ysgol 2016/17	100	99	80	73	390	360	514
Ardal ALL 2016/17	100	98	72	57	360	336	466
Cymru 2016/17	99	94	67	55	350	325	456

	Nifer y bechgyn 15 oed a oedd ar y gofrestr yn Ionawr 2017: 60						
Ysgol 2016/17	100	98	68	60	361	334	438
Ardal ALL 2016/17	100	97	67	53	348	324	439
Cymru 2016/17	99	93	62	51	337	313	432

	Nifer y merched 15 oed a oedd ar y gofrestr yn Ionawr 2017: 68						
Ysgol 2016/17	100	100	90	84	416	383	580
Ardal ALL 2016/17	100	98	78	61	373	348	495
Cymru 2016/17	100	96	72	59	364	338	482

1. Gallwch gael manylion am gymwysterau cymeradwy, sgôr pwyntiau a chyfraniad at drothwyon, yng Nghronfa Ddata Cymwysterau Cymeradwy Cymru (DAQW) yn <http://www.daqw.org.uk>
2. Gallwch gael gwybodaeth am ba feysydd llafur a gynhwysir ym mhob maes pwnc yn Nodiadau Canllaw.
3. Cyfrifir sgorau pwyntiau ehangach cyfartalog wedi'u capio drwy ddefnyddio'r 8 canlyniad gorau.
4. Cymhwyster Lefel Mynediad.
5. Ar gyfer SSSP terfynol caiff y diffiniad hwn ei gyfnewid â chanran y disgyblion 15 oed sy'n gadael addysg heb unrhyw gymwysterau fel y diffinnir o dan y Dangosydd Perfformiad Cenedlaethol EDU/002.
6. Defnyddir ar gyfer pob tabl meincnodi Prydau Ysgol am Ddim.

Cyrchfannau disgyblion

Disgyblion	BI 11		BI 12		BI 13	
------------	-------	--	-------	--	-------	--

	Nifer	%	Nifer	%	Nifer	%
Parhau mewn addysg llawn amser – yn yr ysgol hon	84	63.6	75	89.2	1	1.1
Parhau mewn addysg llawn amser – mewn ysgol arall	11	8.3	0		0	
Parhau mewn addysg llawn amser – coleg	26	19.6	7	8.3	12	13.6
Parhau mewn addysg llawn amser – cwrs addysg Uwch	0		0		60	68.1
Blwyddyn allan	0		0		6	6.8
Parhau mewn addysg rhan amser	0		0		0	
Hyfforddiant ieuenctid gan gynnwys prentisiaeth	6	4.5	0		3	3.4
Di-waith ac wedi'i gofrestru â Gyrfa Cymru	0		0		0	
Di-waith a heb ei gofrestru â Gyrfa Cymru	0		0		0	
Methu â dechrau Cyflogaeth, Addysg Uwch yn sgil salwch	0		0		0	
Wedi gadael yr ardal	0		0		0	
Ddim yn ymateb i gamau dilynol ac felly ddim yn gwybod	0		0		0	
Swydd	5	3.7	2	2.3	6	6.8

Presenoldeb

Yn flynyddol mae canran presenoldeb Ysgol Bro Myrddin yn uchel iawn.

Presenoldeb disgyblion	2014/2015	2015/2016	2016/2017
% Absenoldebau a awdurdodwyd	4.4%	4.2%	4.3%
% Absenoldebau heb awdurdod	0.1%	0.2%	0.2%
% Presenoldeb	95.5%	95.6%	95.5%

Targedau'r Corff llywodraethol o ran presenoldeb	2015/2016	2016/2017	2017/2018
% Presenoldeb	95.7%	95.9%	96.1%

Cyfleusterau Toiled

Archwilir Cyfleusterau Toiled yn rheolaidd ac mae'n rhan o'r contract glanhau gyda'r Awdurdod. Mae'r disgyblion, drwy lenwi holiadur a thrwy waith y Cyngor Ysgol, yn cyfrannu at y gwaith o fonitro ansawdd y cyfleusterau hyn. Rydym wedi gweithredu ar ganlyniadau'r holiadur trwy gyflogi glanhawraig ar safle yn ystod y dydd i ganolbwyntio ar lanhau'r toiledau.

Nodiadau ar Ysgolion Iach

Rydym wedi ymrwymo i'r Mesur Bwyta'n Iach ac Yfed mewn Ysgolion sy'n ymgorffori'r arweiniad ar gyfer 'Blas am Oes'. Daeth hyn i rym ym mis Medi 2013. Mae'n nodi'r cyfeiriad strategol a'r camau sydd eu hangen i wella safonau maeth bwyd a diod a werthir yn ein hysgol.

Rydym wedi gweithredu ar hyn gyda chefnogaeth y gwasanaeth Arlwyo i sicrhau bod yr holl fwyd a diod yn ein hysgol yn cydymffurfio â'r mesur. Mae bwyta'n iach yn cael ei hyrwyddo drwy wersi Technoleg Bwyd, Bioleg ac ABCh. Mae negeseuon cyson yn cael eu darparu gan staff o ran bwyd a diod yn yr ysgol ac oddi ar y safle. Rydym bellach yn anelu at gyrraedd Cam 5 Ysgolion Iach.

Disgyblaeth

Rhaid wrth reolau ysgol er mwyn diogelu trefn a safonau o fewn yr ysgol. Fe'u seilir ar y syniadau canolog o hunan barch, parch at eraill, a synnwyr cyffredin. Trafodir y rheolau yn y gwersi tiwtorial a disgwylir i bob disgybl gydymffurfio. Cynhelir safonau uchel o ddisgyblaeth trwy weithredu system glir o ddisgyblu disgyblion nad ydym yn cydymffurfio. Yr athro pwnc sydd yn delio â'r disgybl yn gyntaf ac os nad yw hyn yn adfer y sefyllfa mae'r mater yn cael ei drafod o fewn yr Adran. Os oes angen delio ymhellach gyda'r disgybl fe'i cyfeirir at y Pennaeth Blwyddyn i gynnal trafodaethau pellach cyn trafod ataliad awr ginio. Os yw disgybl yn camymddwyn yn gyson ac yn cael ei osod mewn ataliad awr ginio mwy na thair gwaith yna hysbysir y rhieni y cedwir disgybl mewn ataliad ar ôl ysgol. Gellir atal disgybl rhag dod i'r ysgol yn unol â chanllawiau Llywodraeth Cymru. Gweithredir polisi hybu ymddygiad cadarnhaol yn yr ysgol ac oherwydd hynny, prin iawn yw'r camymddwyn o fewn a thu allan i furiau'r ysgol.

Mae'r ysgol yn gweithredu polisi clir wrth ddelio â materion yn ymwneud â bwllian, ac yn ymateb yn syth os bydd problem o'r fath yn codi.

Iechyd a diogelwch

Mae polisi Iechyd a Diogelwch yr ysgol yn adlewyrchu dyhead y Corff Llywodraethol i sicrhau safle diogel i'r disgyblion a'r staff fel ei gilydd. Cynrychiolir pob categori cyflogaeth o blith y staff ar Bwyllgor Iechyd a Diogelwch y staff. Mae'r pwyllgor hwn yn adrodd yn ôl i Bwyllgor Iechyd a Diogelwch y Llywodraethwyr. Pwysleisir i'r staff y dylid rhoi gwybod i'r Swyddog Iechyd a Diogelwch am unrhyw ddiffygion / peryglon yn syth.

Trefniadau arbennig o safbwynt hygyrchedd i ddisgyblion, staff a rhieni gydag anableddau

Mae'r Corff Llywodraethu wedi mabwysiadu Cynllun Cydraddoldeb Strategol yr Ysgol. Mae'r cynllun hwn yn sicrhau nad yw disgyblion (neu rywun arall sy'n rhanddeiliad yr ysgol) ag anableddau yn cael eu trafod yn llai ffafriol nag eraill.

Prosbectws yr ysgol

Caiff Prosbectws yr Ysgol ei addasu yn flynyddol er mwyn cynnwys unrhyw newidiadau sy'n ofynnol gan Lywodraeth Cymru a chyrff perthnasol eraill. Rhoddir copi i rieni'r plant sy'n dechrau yn yr ysgol am y tro cyntaf neu sy'n trosglwyddo o ysgol arall. Mae copïau ar gael ar wefan yr ysgol neu dros yr e-bost neu os oes problemau gyda hynny, darperir copi caled drwy gais i swyddfa'r ysgol.

Cyfrwng Addysgu a Pholisi Iaith

Addysgir ac asesir holl bynciau'r Cwricwlwm Cenedlaethol trwy gyfrwng y Gymraeg ym Mro Myrddin a'r cyfrwng addysgu yma, sef y Gymraeg, yw'r norm, wrth reswm, i fwyafrif llethol y disgyblion sy'n dewis Bro Myrddin fel ysgol uwchradd. Mae pob disgybl ym mlynnyddoedd 7 ac 8 yn astudio pob pwnc, ac eithrio'r Saesneg, trwy gyfrwng y Gymraeg. O ran Gwyddoniaeth

ym mlwyddyn 9 i 13 mae dewis iaith yn bodoli ond gyda sefydlu'r polisi iaith presennol yn flynyddol bellach bydd hyn yn newid gyda'r blwyddyn 7 ac 8 presennol yn parhau gyda'i haddysg trwy gyfrwng y Gymraeg. Mae pob disgybl yn CA3, CA4 a CA5 yn astudio Mathemateg trwy gyfrwng y Gymraeg. Mewn Gwyddoniaeth a Mathemateg yn CA3 darperir rhestrau termau a geirfa pwnc yn y Gymraeg a'r Saesneg. Yn ychwanegol fe ddefnyddir adnoddau, llyfrau a TGCh cyfrwng Saesneg yn ogystal â'r Gymraeg yn rheolaidd i gyfoethogi datblygiad ieithyddol, gwyddonol a mathemategol y disgyblion. Mae hyn yn sicrhau y bydd pob disgybl yn medru trafod y pynciau trwy gyfrwng y Gymraeg a'r Saesneg, ac yn dileu unrhyw ofid a all fodoli ymhlith y rhai sy'n credu y gall addysg wyddonol a mathemategol trwy'r Gymraeg yn unig ei gwneud yn anodd i ddisgyblion addasu i gyd-destun gwyddoniaeth a mathemateg cyfrwng Saesneg wedi gadael ysgol. Ar hyn o bryd hefyd mae'r adrannau yn paratoi adnoddau ar-lein i gynorthwyo rhieni di-gymraeg i gynorthwyo eu plant.

Yr Iaith Gymraeg

Cymraeg yw iaith swyddogol yr ysgol ar gyfer gweithgareddau allgyrsiol a'r mwyafrif helaeth o wersi academiaidd. Mae'r ysgol yn falch o'i hethos Cymreig ac yn gweithredu i sicrhau fod hyn yn cael ei gynnal ar gyfer pob carfan newydd o ddisgyblion. Anogir disgyblion sydd yn dewis mynychu'r ysgol i siarad Cymraeg o gwmpas yr ysgol, mewn gweithgareddau allgyrsiol ac mewn gwersi sy'n cael eu dysgu trwy gyfrwng y Gymraeg. Gofynnir i rieni gefnogi'r ysgol yn hyn o beth trwy annog eu plant i siarad Cymraeg, i barchu Cymreictod yr ysgol a'u hannog hwy i wneud eu gorau i hybu hyn ar bob achlysur. Mae'r ysgol yn gweithredu ar dargedau Cynllun Strategol Iaith Sir Gâr i symud yr ysgol ar hyd y continwwm ieithyddol. Canlyniad hynny yw bod yr ysgol ers Medi 2016 wedi newid categori iaith o 2A i CC. Golyga hynny, bod pob pwnc oni bai am y Saesneg yn cael eu dysgu trwy gyfrwng y Gymraeg.

Polisiau

Mabwysiadwyd pum polisi newydd gan y Corff Llywodraethol yn ystod y flwyddyn sef 'polisi iechyd meddwl,' 'polisi apeliadau mewnol - cymhwyster allanol,' 'gweithdrefn fedrusrwydd ar gyfer athrawon a phenaethiaid,' polisi asesiad dan reolaeth a pholisi asesiad di-arholiad.

Adroddiad Anghenion Addysgol Arbennig 2016-17

Ein nod yn Ysgol Gyfun Gymraeg Bro Myrddin yw addysgu disgyblion ag Anghenion Addysgol Arbennig ochr yn ochr â'u cyfoedion yn y brif ffrwd cyn belled ag y bydd hynny'n ymarferol. Er i blant dderbyn cwricwlwm gwahaniaethol, fe fydd yna adegau pan fydd disgyblion yn cael eu tynnu allan o ddosbarthiadau dros dro, er mwyn canolbwyntio ar rai agweddau allweddol o'r gwaith megis sgiliau llythrennedd a rhifedd sylfaenol. Gwneir hyn ar sail profion safonol ac adroddiadau a dderbynnir oddi wrth swyddogion yr awdurdod addysg a phenaethiaid yr ysgolion cynradd ac ar ôl trafod gyda rhieni unigol.

Mrs Caroline Walton, Cydgysylltydd Anghenion Dysgu Ychwanegol yr ysgol oedd yn gyfrifol am gynllunio a chydlynu'r ddarpariaeth i'r disgyblion ac anghenion addysgol arbennig a threfnu gwaith y staff cynorthwyol. Adolygir y datganiadau yn flynyddol, mewn cyfarfod a drefnir gyda'r rhieni unigol a'r gwasanaethau cynnal sirol. Ar ddiwedd y flwyddyn academiaidd ymddeolodd Mrs Walton ar ôl cyfnod o 20 mlynedd o wasanaeth clodwiw. Mr Dyfed James fydd ein cydgysylltydd newydd.

Mrs Anne Loughran sydd wedi ei henwi fel llywodraethwr cyswllt i'r adran. Ceir 130 o ddisgyblion ar y gofrestr AAA wedi eu dosbarthu fel a ganlyn.

Blwyddyn	Datganiadau	Gweithredu yn yr ysgol a mwy	Gweithredu yn yr ysgol
7	1	3	10
8	2	9	11
9	3	6	13
10	2	6	12
11	1	2	15
12	2	0	0
13	1	0	10
Cyfanswm	12	26	71

Crëwyd proffil ar bob disgybl ar y gofrestr AAA sef y CCU (Cynllun sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn). Dengys y CCU farn y disgybl unigol, y ffactorau sy'n effeithio ar eu dysgu mewn gwrsi, canlyniadau unrhyw brofion safonedig a thargedau athrawon.

Bellach derbynia nifer fawr o ddisgyblion sydd ar y Gofrestr AAA drefniadau mynediad yn eu harholiadau allanol a mewnol. Cyflwynwyd darlennydd cyfrifiadur i ddisgyblion sydd ar hawl i gael darlennydd. Galluoga hyn y disgyblion sy'n sefyll Cymraeg neu Saesneg iaith i glywed y testun yn cael ei ddarllen yn uchel. Felly, mae'r disgyblion sydd â sgiliau darllen gwan ond sgiliau darllen a deall da yn gallu cael mynediad i bapurau iaith Cymraeg a Saesneg am y tro cyntaf.

Datblygwyd gweithdy darllen ar gyfer darllenwyr llai hyderus yn ystod y flwyddyn sef y 'Literacy Toolbox.' Defnyddia'r cynllun gyfrifiaduron a dulliau dysgu arbennig i hybu sgiliau darllen, llawysgrifen a sillafu. Gwelwyd gwelliant sylweddol yn oedran darllen y disgyblion a fu'n rhan o'r cynllun. Cynhelir nifer o weithdai arbenigol gan yr Adran gan gynnwys gweithdy llawysgrifen; gweithdy Fresh Start; gweithdy Literacy Toolbox a gweithdy Llythrennau a Synau.

Lles disgyblion

Mae gennym dîm o bobl yn gweithio er mwyn lles y disgyblion. Mae pedwar aelod wedi eu hyfforddi fel swyddogion amddiffyn plant – Dr Llinos Jones, y pennaeth; Mr Eurynd Madoc Jones, dirprwy bennaeth; Miss Zelda Williams a Mr Jonathan Thomas, penaethiaid cynorthwyol. Mae'r penaethiaid blwyddyn yn chwarae rôl holl bwysig, felly hefyd y swyddog ieuencid, swyddog presenoldeb, iechyd a lles, nyrs iechyd yr ysgol a chwnselyddion. Gwelwyd 46 o ddisgyblion gan gwnselyddion yr ysgol Mrs Netta Thomas a Miss Alex Davies o ddisgyblion eleni. Mae'r cynllun Mentora Cyfoedion, sef cynllun i hyfforddi disgyblion y chweched dosbarth i weithio gyda phlant bregus yn mynd o nerth i nerth.

Chwaraeon

Mae'r Llywodraethwyr o'r farn y gwiredwyd prif nodau chwaraeon yr ysgol sef:

- Darparu amgylchedd diogel sy'n symbyliad i ddisgyblion lle gallant weithio tuag at aeddfedrwydd cyffredinol
- Datblygu sgiliau corfforol

- Hybu ymwybyddiaeth o bwysigrwydd iechyd wrth ymarfer.

Cynigir lluo o weithgareddau gan yr adran a'r swyddog 5x60 gan gynnwys rygbi, pêl-droed, athletau, criced, tenis, gymnasteg, cyfeiriannu, badminton, aerobeg, trawsgwlad, pêl-rwyd, dawns greadigol, canwio, rafftio, rownderi, sgïo, gweithgareddau awyr agored, hoci, pêl-fasged, rygbi cyffwrdd, pêl-foli, ymarfer cylched, ymarfer pwysau, dringo, beicio mynydd a mynydda. Yn ychwanegol mae llawer o'r disgyblion yn cwblhau Gwobr Efydd ac Arian Dug Caeredin yn flynyddol. Mae llwyddiant ein disgyblion ar y caeau chwarae yn yr ysgol ac yn allgyrsiol yn arbennig gyda sawl unigolyn yn cyrraedd safon genedlaethol. Bellach ers llynedd mae gan yr ysgol gyngor Chwaraeon a etholwyd trwy bleidlais gan y disgyblion. Rôl y cyngor Chwaraeon fydd arwain a chynghori'r UDA ar unrhyw faterion sy'n ymwneud â'r maes.

Llwyddiannau

Ymhyfryda'r ysgol hefyd yn llwyddiannau academiaidd ac allgyrsiol ein disgyblion, nid yn unig ar y caeau chwarae ond ar lwyfannau cenedlaethol ac ym myd actio a'r cyfryngau.

Gweithgareddau allgyrsiol

Yn flynyddol cynigir lluo o brofiadau allgyrsiol i'n disgyblion i gyd-fynd gyda'u hastudiaethau academiaidd. Cynhelir teithiau niferus, gweithdai amrywiol, cystadlaethau diddorol, siaradwyr gwadd, cynadleddau blynyddol a chyfleoedd o bob math.

Pwyllgor dyngarol

Mae gennym bwyllgor dyngarol gweithgar o 70 o ddisgyblion y chweched dosbarth. Eleni casglwyd dros £6,000 ar gyfer achosion da amrywiol.


Cyfarfod Rhieni Blynyddol

Ers Mai 2013 mae trefniadau newydd mewn grym o ran cyfarfod blynyddol llawn y llywodraethwyr / rhieni. Yn hytrach na bod yn rhaid i gorff llywodraethau gynnal cyfarfod blynyddol gyda rhieni, mae gan rieni'r hawl i ofyn am gyfarfod gyda chorff llywodraethu ar faterion sy'n destun pryder. Gall rhieni arfer yr hawl hon hyd at dair gwaith yn ystod blwyddyn ysgol, cyn belled mai pwrpas y cyfarfodydd yw trafod materion sy'n ymwneud â'r ysgol, nid cynnydd a chyflawniad disgyblion unigol na chwynion ynghylch aelod o staff neu aelod o'r corff llywodraethu. Caiff cyfarfod ei drefnu gyda'r Llywodraethwyr, felly, os bydd 10% neu 30 o'r rhieni yn gofyn yn ysgrifenedig am gael cyfarfod gan ddefnyddio adran 94 o Ddeddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013.

Holiadur i Rieni

A fyddech mor garedig â defnyddio'r holiadur newydd a ddosberthir yn ystod nosweithiau rhieni er mwyn i ni gael gwybod eich barn ar ein perfformiad ac, os yw'n briodol, er mwyn awgrymu syniadau y gallwn eu mabwysiadu er budd yr ysgol. Yn ystod y flwyddyn academiaidd 2016-17, dyma oedd eich ymateb i'r holiadur.

Holiadur rhieni 2016-17



1. Ar y cyfan, rwy'n fodlon ar yr ysgol.
2. Mae fy mhlentyn yn hapus yn yr ysgol.
3. Cafodd fy mhlentyn help i ymgartrefu'n dda pan ddechreuodd yn yr ysgol.
4. Mae fy mhlentyn yn gwneud cynnydd da yn yr ysgol.
5. Mae safon yr addysgu yn dda.
6. Mae'r staff yn disgwyl i'm plentyn weithio'n galed a gwneud ei orau.
7. Mae'r gwaith cartref a roddir yn adeiladu'n dda ar yr hyn mae fy mhlentyn yn ei gael yn yr ysgol.
8. Mae'r staff yn trin pob plentyn yn deg ac â pharch.
9. Mae'r disgyblion yn ymddwyn yn dda yn yr ysgol.
10. Mae fy mhlentyn yn cael ei annog i fod yn iach a chymryd ymarfer corff yn rheolaidd.
11. Mae fy mhlentyn yn ddiogel yn yr ysgol.
12. Mae'r ysgol yn gwrando ar lais fy mhlentyn.
13. Mae fy mhlentyn yn derbyn cymorth ychwanegol priodol mewn perthynas ag unrhyw anghenion unigol penodol.
14. Rwy'n cael digon o wybodaeth am gynnydd fy mhlentyn.
15. Rwy'n teimlo'n gyfforddus am fynd at yr ysgol gyda chwestiynau, awgrymiadau neu broblem.
16. Rwy'n deall gweithdrefn yr ysgol ar gyfer delio â chwynion.
17. Mae'r ysgol yn helpu fy mhlentyn i aeddfedu a chymryd cyfrifoldeb.
18. Mae fy mhlentyn yn barod i symud ymlaen i'r ysgol neu goleg nesaf neu i mewn i gyflogaeth.
19. Mae amrywiaeth dda o weithgareddau gan gynnwys teithiau neu ymweliadau.
20. Caiff yr ysgol ei rhedeg yn dda.

Rhestr o ddigwyddiadau 2016-17

Medi – Tachwedd 2016

Medi 4ydd – “Côr On Tôr” - Ar ddechrau blwyddyn academiaidd newydd, teithiodd 44 o aelodau côr merched hŷn Ysgol Gyfun Bro Myrddin allan i Ypres, Gwlad Belg, i ganu yn seremoni'r Last Post ym Menin Gate.

Medi 14-16 – Bu disgyblion bl 7 yng ngwersyll yr Urdd Llangrannog am dridiau er mwyn pontio ar ddechrau'r flwyddyn academiaidd. Bu'r tywydd yn garedig dros ben ac fe welwyd bae Ceredigion ar ei orau yn wir! Braff oedd cael y cyfle i wneud ffrindiau newydd yn ogystal â phrofi gweithgareddau amrywiol y gwersyll. Braff yn ogystal, oedd cael gweld chwaraewyr 7 bob ochr Cymru yn ymarfer a datblygu eu sgiliau.

Priodas ym mlwyddyn 9 – Dydd Gwener 8fed o Orffennaf teithiodd dau fws o ddisgyblion blwyddyn 9 i Gapel y Priorddy, Caerfyrddin ar gyfer achlysur arbennig iawn, sef ffug-briodas Mari Freeman a Dylan Richards, dau o ddisgyblion blwyddyn 9. Trefnwyd y briodas fel rhan o'r cwrs Astudiaethau Crefyddol.

Clwb Llythyru - Yn ystod y flwyddyn, bu Clwb Llythyru brwdfrydig Ysgol Gyfun Gymraeg Bro Myrddin yn mwynhau anfon llythyron at Glwb Llythyru Ysgol Gyfun Bryntawe. Ar ddiwedd y tymor cafodd disgyblion y ddwy ysgol gyfle i gwrdd â'i gilydd am y tro cyntaf drwy gynnal sgwrs fideo-gynadledda!

Diwrnod Joio Boio – Ar Ddydd Gwener yr 8fed o Orffennaf cynhaliodd Project4Cymraeg ddiwrnod Joio Boio. Roedd hi'n ddiwrnod bendigedig gyda'r ysgol gyfan allan ar y cae yn mwynhau'r haul, yn cicio'r bêl o'r smotyn, yn mwynhau losin, mochteils a ffrwythau ffres ac yn dawnsio i gerddoriaeth fyw Adwaith.

Prif swyddogion 2016-2017 – Llongyfarchiadau i Carwyn Bebb a Sioned Beynon ar gael eu hethol yn brif fachgen a phrif merch. Yn eu cynorthwyo bydd Greta Llyr, Elen Davies, Osian McAvoy a Cai Evans. Pob lwc iddynt yn eu rôl newydd.

Aelodau Cyngor Ysgol 2016-2017 – Llongyfarchiadau i'r canlynol sydd yn aelodau o'r cyngor ysgol 2016-2017. Blwyddyn 7 – Gwenno Ellis Jones ac Ifan Knott; Blwyddyn 8 – Lucy Davies ac Oliver Percey; Blwyddyn 9 – Anwen Thomas a Scott Davies; Blwyddyn 10 – Bethan McFayden ac Ioan Tillman; Blwyddyn 11 – Alice Morris a Rhys Jones; Blwyddyn 12 – Caryl Jones, Ceris James, Garmon Dyfri a Rhys O Evans; Blwyddyn 13 – Greta Llŷr, Bethan Lewis, Carwyn Bebb a Rhodri Williams

Codi arian i elusennau "Jeans for Genes" a Bore coffi Macmillan – Ar ddydd Gwener y 23^{ain} o Fedi, cynhaliodd yr ysgol ddiwrnod "Jeans for Genes" er mwyn codi ymwybyddiaeth ar gyfer yr elusen sydd yn helpu plant efo anhwylder genetig. Ar achlysur arall daeth aelodau o staff a chweched Bro Myrddin at ei gilydd ar fore Gwener y 30^{ain} o Fedi 2016 i gymryd rhan yn more Coffi Macmillan. Codwyd £550 i'r elusen sy'n agos i galonnau llawer ohonom.

Wythnos Fioleg – Nododd y 10fed o Hydref ddechrau Wythnos Fioleg 2016 Y Gymdeithas Fioleg Frenhinol gyda @ybmviol yn gwahodd Dr. Natasha de Vere, Pennaeth Gwyddoniaeth Y Gerddi Botaneg i'r ysgol i siarad am ei gwaith. Ar ddydd Mawrth tro'r disgyblion i gael eu dwylo'n frwnt oedd hi. Y testun dan sylw oedd "DNA – Rhyfeddod bywyd"; gyda'r disgyblion yn cael cyfle i astudio'r molecwl arbennig hwn wrth echdynnu DNA o fefus. Cwis cafwyd ar ddydd Mercher gyda chriw brwd yn brwydro am y wobr eleni. "Y byd anweledig" oedd sylw gweithgareddau dydd lau lle gafodd y disgyblion gyfle i edrych ar wahanol sbesimenau o gelloedd ac organebau ungellog o dan ficrosgop. Eleni eto, profodd bore dydd Gwener yn ddiweddglo lliwgar gyda chystadleuaeth "Y Bake-off Biolegol." Daeth casgliad anhygoel o gacennau i law, gyda'r eisin a'r ffordant yn cael ei ffurfio mewn i wahanol sbesimenau biolegol. Roedd y safon yn eithriadol o uchel gyda'r beirniaid Mrs. Non Knott a Mr Tim Hayes yn penderfynu bod Megan Jones a Josh Elvy yn fuddugol ym mlwyddyn 7-9, Anya Fearn gyda'i chynrychiolaeth o lygoden fawr yn ennill ym mlwyddyn 10-11 a Marci o Banedini yn dod i'r brig yng nghystadleuaeth y Chweched a'r Staff.

Gwasanaeth Diolchgarwch – I gloi hanner tymor yr Hydref cafwyd Gwasanaeth Diolchgarwch blynyddol yn yr ysgol. Agorwyd y gwasanaeth gyda Carwyn Bebb yn croesawu'r Parchedig Beti Wyn James i rannu neges y gwasanaeth o ddiolch. Cawsom ein swyno ar ddechrau'r gwasanaeth gydag eitem gerddorol gan fand yr Ysgol dan arweiniad Mrs Scaife. Cafwyd darlleniadau gan y prif swyddogion Carwyn Bebb, Sioned Beynon, Elen Davies, Cai Evans, Greta Llŷr ac Osian McAvoy. Cafwyd eitem gerddorol gan y Côr lau – "Miwsig yn ein Calon" dan arweiniad Mrs Nia Evans a Mrs Meinir Richards yn cyfeilio. Diolch i bawb am eu cyfraniad ac yn enwedig i'r Parchedig Beti Wyn James am ei neges ddiddorol a phwrpasol.

Banc Bwyd Gaerfyrddin – Yn dilyn ein gwasanaeth Diolchgarwch, derbyniodd yr ysgol nifer o gyfraniadau tuag at fanc bwyd Caerfyrddin. Ar fore Mercher, 19 o Hydref aeth criw o'r chweched dosbarth i'r banc bwyd i drosglwyddo'r nwyddau.

Llwyddiannau chwaraeon

Sgwad tîm rygbi merched Cymru o dan 18 – Llongyfarchiadau mawr i Bethan Lewis blwyddyn 13eg ar gael ei dewis ar gyfer sgwad tîm rygbi merched Cymru.

Pencampwyr sgïo – Llongyfarchiadau i dîm sgïo Ysgol Bro Myrddin sydd wedi dod yn bencampwyr Ysgolion Cymru unwaith eto sef Aiden Jones, Owen Llewelyn Jones, Huw Butterworth a Rhys Owen.

Pencampwyr rhanbarth Scarlets tîm rygbi Merched – Llongyfarchiadau i dîm merched dan 18 Bro Myrddin am ddod yn bencampwyr Rygbi rhanbarth Sgarlets ar ddydd Mawrth Hydref y 18fed.

Cystadleuaeth saethu – Llongyfarchiadau i dîm saethu yr ysgol a fu'n rhan o gystadleuaeth Genedlaethol yn ddiweddar. Llwyddodd Megan Jones a Steffan Herdman i gyrraedd y rowndiau terfynol a gwobrwywyd Megan, Jac a Celyn gyda medal arian yn ei grŵp. Fe fyddant yn cystadlu yn y gemau terfynol Cenedlaethol yng Nghaerdydd ym mis Ionawr.

Gemau mis Medi a Hydref – bu'n gyfnod hynod brysur yn yr ysgol gyda 48 o gemau amrywiol yn cael eu chwarae. Hyd yn hyn mae'r ysgol wedi ennill 18 gêm rygbi gan golli un. Enillwyd 9 gêm pêl-rwyd a chollwyd 8. Enillwyd un gêm hoci a chollwyd 5. Enillwyd 4 gêm bêl-droed a chollwyd 2.

Chwarae i dîm pêl-droed Sir Gaerfyrddin – Llongyfarchiadau i'r canlynol ar gael eu dewis i dîm pêl-droed ysgolion Caerfyrddin dan 12 oed. Callum Thomas, Griff James, Ifan Knott, James Edwards, Rhys Evans, Steffan Lewis, Steffan O'Leary a Cian Thomas. Allan o sgwad o 15 mae 8 o Ysgol Bro Myrddin.

Sgwad hwylio Prydain – Llongyfarchiadau i Aled Llywelyn Jones blwyddyn 9 ar gael ei ddewis i sgwad hwylio Prydain Fawr ar gyfer tymor 2016-17

Tachwedd 2016 – Chwefror 2017

Hydref 20fed – Cafodd Elin Wyn James, disgybl o flwyddyn 13 y profiad arbennig o deithio fel un o lysgenhadon yr Urdd i Batagonia.

Hydref 20fed – Aeth criw o ddisgyblion o flwyddyn 11 ar daith flynyddol yr Adran Hanes i America dros yr hanner tymor.

Tachwedd 3ydd – Aeth disgyblion blwyddyn 7 i ymweld â'r Synagog a Gwrdwara yng Nghaerdydd.

Rhagfyr 13eg – Teithiodd 45 o ddisgyblion blwyddyn 11, 12 a 13 i Gaerdydd ar gyfer darlith gan 'Maths Inspiration'. Trefnwyd y trip er mwyn ysbrydoli pobl ifanc i ddarganfod sut mae Mathemateg yn plethu â phynciau eraill. Prif ffocws y ddarlith oedd trafod rôl Mathemateg yn y byd chwaraeon a gan ein bod ym mhrifddinas Cymru, rygbi oedd canolbwynt y ddarlith.

Rhagfyr 15fed – Aeth disgyblion blwyddyn 7 gyda'r Adran Addysg Grefyddol i weld drama Stori'r Nadolig yng nghapel Y Bedyddwyr, Heol Awst.

Ymweliad â Pharc y Scarlets – Cafodd criw o ddisgyblion Blwyddyn 11 gyfle i fynd i Barc y Sgarlets yn ddiweddar fel rhan o bartneriaeth rhwng Ysgol Bro Myrddin a chwmni'r Principality. Roedd yn gyfle i'r disgyblion ddatblygu ar ystod o sgiliau; cyfathrebu, gweithio fel tîm a ffitrwydd o dan ofal yr elusen 'School of Hard Knocks.'

Ymweliad Paul Pugh gyda'r chweched dosbarth – Mewn gwers Diwtorial yn ddiweddar daeth Paul Pugh i'r ysgol fel siaradwr gwadd. Soniodd am yr ymosodiad erchyll a fu arno yn Rhydaman ddeng mlynedd yn ôl gan ddieithriad meddw. Ar y cyd â Heddlu Dyfed Powys mae ymgyrch Paul's Pledge yn rhannu profiadau Paul gyda phobl ifanc trwy ddangos rhaglen ddogfen am y digwyddiad. Siarodd gyda'r chweched am effaith alcohol a chyffuriau ar unigolion.

Cit newydd i ferched hoci hyn yr ysgol – Braf oedd cael derbyn cit hoci newydd sbon gan ein noddwyr y Principality yn ddiweddar. Bu dau gynrychiolydd o'r Principality yn yr ysgol sef James Harper, rheolwr cyfrifoldeb cymdeithasol corfforaethol y Principality a rheolwraig y gangen leol Virginia Linnell yn cyflwyno'r cit i'r merched. Cyflwynwyd crysau, skorts, sanau a siwmperi i'r tîm cyntaf gan ddymuno pob llwyddiant iddynt i'r dyfodol.

Torri gwallt i godi arian – Llongyfarchiadau i Fiona Shields o flwyddyn 8 a lwyddodd i godi dros £1,000 ar gyfer elusen cancr Mcmillan. Bu'n ddewr gan dorri ei gwallt hir i achos da ar y rhaglen Heno ar S4C nos Fercher.

Cyfansoddwr Ifanc Dyfed 2016/17 – Bu'r cyfansoddwr Andrew Wilson Dickson ar ymweliad gyda'r Adran Gerdd ddydd Llun, Rhagfyr 12fed i gyflwyno sesiwn ar dechnegau cyfansoddi'r ugeinfed ganrif i ddisgyblion hŷn yr ysgol.

Ymweld â Chartref yr Henoed, Caeglas, Ffairfach, Llandeilo – Bore Mawrth, Rhagfyr 13eg – Bu criw o ddisgyblion Bl 12 a 13 yng nghartref yr Henoed yng Nghaeglas, Ffairfach, Llandeilo i gyflwyno rhaglen Nadoligaidd.

Chwarae Cuddio – Bore Gwener, Rhagfyr 16eg – Cafodd Bl 7 ac 8 gyfle bore Gwener, Rhagfyr 16eg i fwynhau detholiad o sioe yr ysgol "Chwarae Cuddio", ond yn neuadd yr ysgol y tro hwn yn hytrach nag yn Theatr y Lyric. Roedd hi'n gyfle arall i'r cast fwynhau perfformio gyda'i gilydd tra ar yr un pryd cyflwyno themâu amserol a chyfoes y sioe arbennig hon.

Gwasanaeth Nadolig Ysgol Gyfun Bro Myrddin – Prynawn Gwener, Rhagfyr 16eg - Ar ddiwedd tymor prysur, roedd hi'n hyfryd ar brynawn olaf y tymor i gynnal Gwasanaeth Nadolig yr ysgol yng nghwmni'r Parchedig Leigh Richardson.

Ysgol Bro Myrddin yn dathlu Gŵyl Ddewi – Cafwyd noson lwyddiannus iawn ar nos Sadwrn y 4ydd o Fawrth pan ddaeth corau'r ysgol a Huw Chiswell at ei gilydd i ddathlu Gŵyl Ddewi. Arweiniwyd y noson yn ddeheuig gan Heledd Cynwal a llywyddwyd y noson gan Mr Eric Jones ein cyn-bennaeth.

Llwyddiannau chwaraeon

Tîm seiclo Prydain 2017 – Llongyfarchiadau i Guto Dafydd o flwyddyn 10 ar gael ei ddewis i dîm seiclo Prydain 2017 o dan 16eg oed.

Pencampwyr Sir Gâr – Llongyfarchiadau i dîm pêl-droed blwyddyn 7, 8, 9, y tîm hŷn a merched bl 7/8 ar fod yn bencampwyr Sir Gâr. Llongyfarchiadau hefyd i dîm rygbi blwyddyn 7, 8, 9, 11 a'r tîm hŷn ar fod yn bencampwyr y Sir.

Sgwad gymnasteg Prydain – Bellach mae Sioned Thomas o flwyddyn 9 yn aelod prysur o sgwad Prydain. Mae newydd ddychwelyd o America lle y daeth yn 1af ac yn ail yn ei chystadlaethau. Mae'n paratoi i deithio i Lerpwl ar gyfer pencampwriaethau Prydeinig cyn bo hir.

Pencampwyr twrnaint Ann Smart Sir Gâr – Llongyfarchiadau i dîm pêl-rwyd dan 16 yr ysgol am ennill twrnaint Ann Smart yn ddiweddar.

Trawsgwlad Prydeinig – Llongyfarchiadau i Daisy Thompson o flwyddyn 8 am ddod yn 3ydd yn y gystadleuaeth.

Cystadleuaeth hwylio Brydeinig – Llongyfarchiadau i Aled Llywelyn Jones o flwyddyn 9 am ddod yn 4ydd yn ei oedran ym Mhrydain.

Sgwad y Sgarlets – Llongyfarchiadau i Harri Jones a Jack Green o flwyddyn 11 ar gael eu dewis i sgwad y Sgarlets.

Llwyddiant tîm pêl-droed y merched – Llongyfarchiadau i'r tîm sydd bellach yn bencampwyr futsal y rhanbarth ac a fydd yn teithio i'r gemau terfynol i Stanford Bridge, cae chwarae Chelsea ym mis Mai.

Timoedd hoci llwyddiannus – Tîm hoci blwyddyn 8 yw bencampwyr hoci Brianne eleni.

Llwyddiant y timoedd pêl-rwyd – Tîm pêl-rwyd blwyddyn 7 yr ysgol yw bencampwyr Brianne eleni.

Llwyddiant y timoedd pêl-droed – Bellach mae timoedd bl 7 ac 8 wedi cyrraedd rowndiau cynderfynol cwpan ysgolion Cymru. Yn anffodus, colli fu hanes y tîm hŷn ar giciau o'r smotyn yn y rownd gynderfynol yn ddiweddar.

Gala nofio Genedlaethol yr Urdd – Cafwyd cryn dipyn o lwyddiant yng ngala nofio yr Urdd yng Nghaerdydd eleni. Cipiwyd medal aur gan Meurig Francis o flwyddyn 13 yn y ras 100m rhydd a'r ail wobwr yn y ras 100m cefn. Daeth Steffan Herdman o fl 13 yn 3ydd yn y ras broga 100m a Deian Sion Morgan o fl 9 yn 3ydd yn y 100m rhydd. Daeth Caio Jones, Liam Edwards, Aled Conlon a Tomos Morgan yn 3ydd yn y ras 200m gyfnewid rhydd.

Trawsgwlad Brianne – Cafwyd llwyddiant mawr yng nghystadleuaeth Brianne eleni gyda Frank Morgan o fl 7 yn 1af, Morgan Lloyd yn ail a Josh Elvy yn 3ydd. Ym ml 8 a 9 daeth Daisy Thompson a Liam Edwards yn gyntaf, Iwan Glynn yn ail a Dafydd Jones yn 3ydd. Yng nghystadleuaeth bl 10 ac 11

daeth Eva Edwards yn 1af a Cerys Davies ac Archi Morgan yn ail. Thomas Jones o fl 12 ddaeth yn gyntaf yn y ras hŷn.

Tîm saethu yr ysgol – Bu llwyddiant i Megan Jones, Jac Lewis, Owen Howell, Taryn Williams, Tom Butterworth, Celyn Yate a Steffan Herdman yn mhencampwriaeth Prydeinig saethu ysgolion.

Mawrth 2017 – Gorffennaf 2017

Taith i ymweld ag Eglwys y Tabernacl a Chapel y Priordy – Bore Gwener yr 19eg o Fai aeth blwyddyn 7 ar daith Astudiaethau Crefyddol i ymweld ag Eglwys y Tabernacl a Chapel y Priordy lle y croesawyd hwy gan y Parchedig Mr Peter Cutts a'r Parchedig Beti Wyn James.

Criw sain a golau – Cafodd criw o ddisgyblion sy'n cynorthwyo gyda Sain a golau'r ysgol gyfle i fynychu cwrs gan Aspire2Be yn y Principality yn ddiweddar gyda Sean Holley. Cawsant ddysgu sgiliau darlledu a thechnoleg.

Profiad disgyblion yr Adran Gerdd – Bu carfan o ddisgyblion hŷn yr ysgol yn Ysgol Maes y Gwendraeth fore Mawrth, Ebrill 4ydd yn gwrandao ar berfformiad o gyfansoddiadau pum disgybl o Fro Myrddin sef Steffan Jones, Alaw Evans, Daniel O'Callaghan, Ffion Richardson ac Elin Wyn James. Roedd y bore yn ffrwyth cystadleuaeth a drefnwyd gan brosiect Cyfansoddwr Ifanc Dyfed, ac roedd cyfansoddiadau'r disgyblion yn cael eu perfformio yno gan ddeuawd proffesiynol – Steve Bingham a Chris Brannick; profiad hyfryd i'r disgyblion. Cafodd Alaw ac Elin y profiad ychwanegol o gael eu darnau wedi eu perfformio mewn cyngerdd cyhoeddus ym Mhlasdy Rhosygilwen ym Moncath brynhawn Sul, Ebrill 9fed. Wele lun o Elin Wyn ac Alaw yng nghwmni'r cerddorion.

Pianydd ar ymweliad – Cafwyd sesiwn ardderchog yn yr Adran Gerdd yng nghwmni'r pianydd proffesiynol Iwan Llywelyn Jones. Ffocws y bore oedd y gwaith gosod ar gyfer Lefel A sef Concerto yn G Fwyaf gan Maurice Ravel. Y cyfansoddwr Ffrengig hwn oedd testun doethuriaeth Iwan Llewelyn Jones, ac yn sicr roedd dyfnder ei wybodaeth yn cyfoethogi addysg disgyblion Blwyddyn 13. Roedd hi'n braf cael cwmni disgyblion Chweched dosbarth Ysgol Maes y Gwendraeth ac Ysgol y Strade yn y sesiwn buddiol hwn.

Pedwarawd ar daith – Ar nos Iau, Ebrill 6ed, bu pedwarawd o'r Chweched Dosbarth – Sioned Beynon, Elin Wyn James, Elin Jones a Hannah Richards yn cyflwyno adloniant yng nghinio *Cynhadledd Ymchwil Mewn Addysg yr Athrofa; leithoedd, llythrennedd a chyfathrebu* yng Ngholeg y Drindod.

Noson Wobrwyo yr ysgol – Ar nos Iau y 6ed o Ebrill cynhaliwyd noson wobrwyo flynyddol yr ysgol gyda'r siaradwr gwadd Mr Gareth Morgans, y cyfarwyddwr addysg. Enillwyd gwobrau arbennig yr ysgol gan Sophie McLaughlin, Gwenllian Phillips, William Pritchard, Teleri Jones, Ela James, Rachel Morgan, Mared Owen, Nia Locker, Mared Owen, Gruffydd Evans, Carys Jones, Will Evans, Jessica Thomas, Meurig Francis, Edward Rocke, Osian McAvoy a Thomas Jones.

Eisteddfod yr Urdd – Er nad oeddem yn cystadlu ym mhrif gystadlaethau corawl a phartïon eleni oherwydd bod Mrs Meinir Richards yn beirniadu, cafwyd cryn dipyn o lwyddiant mewn amryw o gystadlaethau. Cipiwyd tair gwobr gyntaf – côr cerdd dant hŷn, y ddeuawd cerdd dant hŷn a'r tîm siarad cyhoeddus. Enillodd Garmon Dyfri y siaradwr gorau ac fel rhan o'r wobwr fe fydd yn teithio i Frwsel cyn bo hir. Enillwyd tair ail wobwr – grŵp cerdd dant hŷn, ensemble lleisiol a chogurdd a thair trydedd wobwr - unawd chwythbrennau, unawd telyn a chelf dan 19 oed.

Cwis llyfrau – Enillwyd y drydedd wobwr yn y gystadleuaeth cwis llyfrau yn ddiweddar.

Arddangosfa gelf yn yr Atom – cynhaliwyd noson agoriadol yr arddangosfa gelf yn yr Atom ar yr 8fed o Fehefin.

Theatr mewn Addysg – Ar Fai y 25ain, bu criw TGAU Drama Blwyddyn 10 ar daith i Ysgol Gynradd Nantgaredig er mwyn cyflwyno darn o Theatr Mewn Addysg. Roedd y pum drama fer yn delio â themâu megis, bwlio, diffyg hunan ddelwedd, bwlian, ac ofnau ymdopi gyda'r newid byd o'r Ysgol Gynradd i'r Ysgol Uwchradd yn ganolbwynt. Cafodd perfformiadau'r actorion gryn effaith ar y disgyblion iau. Bu sesiwn holi ac ateb ar ddiwedd y perfformiad gyda phawb yn elwa o chwylfrydedd Blwyddyn 5 a 6 a phrofiad ysgol y disgyblion hŷn.

Cymdeithas Fiolegol Frenhinol – Longyfarchiadau i Beca a Rosa o flwyddyn 13 am eu llwyddiant yng nghwis Olympiad Biolegol y Gymdeithas Fiolegol Frenhinol yn ddiweddar. Llwyddodd Beca i ennill

medal efydd, tra sicrhodd Rosa glod teilyngdod uchel yn y cwis rhyngweithiol. Llongyfarchiadau hefyd i Evan Burke o flwyddyn 10 am ennill y wobwr arian yn y Sialens Fiolegol Genedlaethol.

Sioe Frenhinol – llwyddodd yr ysgol i gasglu £500 i'r sioe frenhinol yn ddiweddar.

Cystadleuaeth Divine – llongyfarchiadau i bedair o ferched yr ysgol ar eu llwyddiant yng nghystadleuaeth ysgrifennu creadigol 'Divine' Masnach Deg cenedlaethol – ar y rhaglen Heno cyhoeddwyd bod Megan Bryer a Leusa Bowen wedi derbyn yr ail wobwr a Betsan Campbell a Carina Sidhu wedi ennill y trydydd.

Gwobr arloesedd – llongyfarchiadau i Carwyn Bebb a Will Garrard o'r 6ed am gael eu henwebu am wobwr arloesedd CBAC mewn Dylunio a Thechnoleg.

Bore Proffiliau – Ar Fai yr 8fed cynhaliwyd bore proffiliau blynyddol blwyddyn 11. Yn dilyn croeso a gair byr gan Dr Jones cafwyd areithiau pwrpasol gan Emma Bengier, Gyrfa Cymru a James Harper o'r Principality. Enwebwyd un disgybl o bob dosbarth cofrestru am eu hymdrech yn ystod y flwyddyn gan dderbyn taleb o'r Principality. Llongyfarchiadau i Catrin Lewis, Elin Jones, Carian Jones, Angharad Beach, Sioned Tattersall ac Owain Phillips.

Cyngor Ieuenctid Sir Gaerfyrddin – Llongyfarchiadau i Garmon Dyfri o flwyddyn 12 ar gael ei ethol i gynrychioli Cyngor Ysgol Bro Myrddin ar Gyngor Ieuenctid Sir Gaerfyrddin.

Côr Sir Gâr – Braf llongyfarch nifer o gantorion yr ysgol ar eu llwyddiant gyda Chôr Sir Gâr wrth iddynt ennill rownd derfynol Côr Cymru, a diolch iddynt am gefnogi gweithgareddau sirol.

Ysgoloriaethau Mynediad Prifysgol Aberystwyth – Bu myfyrwyr o'r ysgol yn llwyddiannus yng nghystadleuaeth Ysgoloriaethau Mynediad Prifysgol Aberystwyth. Eleni, dyfarnwyd 65 o ysgoloriaethau a nifer o wobrau teilyngdod gan y Brifysgol. Ymhlith yr ymgeiswyr llwyddiannus roedd: Eve Johnson – Ysgoloriaeth Syr Alfred Jones - £1,000 y flwyddyn; Beca Lleucu Phillips – Gwobr Teilyngdod – £1,000; Eleanor Alicia Phillips – Gwobr Teilyngdod – £1,000 a Marged Ann Smith – Gwobr Teilyngdod - £1,000.

Llwyddiannau chwaraeon

Tîm rygbi hŷn yr ysgol – Llongyfarchiadau i'r tîm rygbi hŷn ar eu llwyddiant ysgubol – ni chollwyd gêm ganddynt drwy'r tymor a bellach nhw yw pencampwyr y rhanbarth a phencampwyr Cymru.

Tîm rygbi blwyddyn 9 – Llongyfarchiadau i dîm Rygbi blwyddyn 9 a gyrhaeddodd rownd gyn-derfynol cwpan ysgolion Cymru ar ôl gêm galed yn erbyn Llanishen. Yn anffodus, colli fu ei hanes yn erbyn ysgol Glantaf yn y rownd honno. Fe wnaeth y bechgyn hefyd ennill cystadleuaeth 7 bob ochr Bishopston yn ddiweddar.

Rygbi 7 bob ochr yr Urdd – Llongyfarchiadau i dîm Rygbi bechgyn flwyddyn 7 ar ddod yn 2il yng nghystadleuaeth Rygbi 7 bob ochr yr Urdd yn ddiweddar.

Merched pêl-droed bl 7/8 – Llongyfarchiadau iddynt ar eu llwyddiant diweddar yn nhwrnamaint yr Uwch Gynghrair a gynhaliwyd yn Stamford Bridge. Fe ddaethant yn ail yn eu grŵp.

Pêl-droed bl 7 – Llongyfarchiadau i dîm pêl-droed blwyddyn 7 ar gyrraedd rownd gyn-derfynol cwpan ysgolion Cymru ar ôl curo Dyffryn Nantlle o 4-2. Yn anffodus, colli o giciau o'r smotyn fu hanes y tîm pêl-droed hŷn yn y gêm gogynderfynol.

Mabolgampau Bro Myrddin – Bu'r ysgol yn ffodus iawn i gael diwrnod sych a braf iawn ar gyfer y mabolgampau eleni. Roedd cystadlu brwd rhwng unigolion a rhwng y llysoedd gyda nifer o berfformiadau unigol disglair. Llwydiarth ddaeth yn fuddugol ar y diwrnod gyda sgôr o 757, Hergest yn ail gyda 668 o bwyntiau, Peniarth yn 3ydd gyda 668 o bwyntiau a Hengwrt yn 4ydd gyda 643. Yn dilyn y drefn flynyddol rhoddwyd tlysau i'r pencampwyr o blith y merched a'r bechgyn a enillodd fwyaf o bwyntiau yn y cystadlaethau. Yr enillwyr unigol eleni oedd Bl 7 Merched – Scarlett Mackenzie-Jones; Bechgyn – Frank Morgan; Bl 8 Merched – Betsan Thomas; Bechgyn – Liam Edwards; Bl 9 Merched – Hanna Lewis; Bechgyn – Ryan Thomas; Bl 10 Merched – Eva Edwards; Bechgyn – Dylan Richards

Trawsglwad Cymru – Llongyfarchiadau i Thomas Jones blwyddyn 12 a Daisy Thompson a Liam Edwards blwyddyn 8 ar gael eu dewis i fod yn rhan o sgwad trawsglwad Cymru yn dilyn eu llwyddiant diweddar.

Ras 10k Gaerdydd – Ar fore Sul yr 2il o Ebrill bu staff o'r ysgol yn rhedeg 10K Caerdydd er mwyn codi arian ar gyfer yr elusen Alzheimer's a'r Llain 3G. Casglwyd cyfanswm o £982.34. Y staff a fu'n rhedeg

oedd: Mrs Eiri Thomas, Miss Bethan Williams, Mrs Eirlys Thomas, Mrs Gwenan Morgans, Mrs Alwen Owen, Mr Gwyn Jones, Dr Huw Griffiths, Mrs Luned Davies ac Eleri Macrae.

Slalom - Llongyfarchiadau i Osian Williams am ddod yn gyntaf mewn cystadleuaeth Slalom C1 MAN yn Llandysul ym mis Mawrth.

Celtic Twirlers – Llongyfarchiadau i Cerys Davies o flwyddyn 9 sy'n aelod o'r Celtic Twirlers. Cafodd y grŵp lwyddiant ysgubol yn Bournemouth yn ddiweddar gan gipio 20 gwobr yn y gystadleuaeth genedlaethol.

Dawnsio Hip-Hop – Llongyfarchiadau mawr i Amelia Dawber sydd wedi dod yn 3ydd mewn cystadleuaeth dawnsio Hip-Hop ar lefel Brydeinig ac yn awr yn symud ymlaen i gynrychioli Prydain yn y Gystadleuaeth "World Hip Hop" yn Arizona mis Awst.

Gymnasteg – Llongyfarchiadau i Elina Deacon o flwyddyn 12 a Carrie Davies o flwyddyn 9 oedd yn rhan o dîm Gymnasteg Dyfed a enillodd ym mhencampwriaeth Gymnasteg Cymru yn ddiweddar.

Polo Dŵr – Llongyfarchiadau i James Williams o flwyddyn 12 a gafodd ei ddewis i dîm Polo Dŵr Cymru a fu'n cystadlu yng ngweriniaeth Tsiec ym mis Ebrill.

Tîm gymnasteg Cymru – Llongyfarchiadau i Sioned Thomas o flwyddyn 9 a fu'n cystadlu gyda thîm Cymru yn Ffrainc yn ddiweddar. Mae hi hefyd ar ei ffordd i dreialon Gemau Olympaidd leuenctid Ewrop yn yr Haf.

Llwyddiant ym myd hoci – Llongyfarchiadau i Betsan Thomas blwyddyn 8 sydd wedi ei dewis i chwarae hoci i dîm dan 13 oed De Cymru mewn gwyl hoci genedlaethol yn yr Haf.

Tîm sgïo yr ysgol – Llongyfarchiadau i'r tîm sgïo a enillodd gystadleuaeth ysgolion Gorllewin Cymru yn ddiweddar. Daeth tîm A sef Tom Butterworth, Sam Phillips, Rhys Owen yn gyntaf a thîm B sef Harri Jones, Chris Evans a Nicholas Evans yn ail. Llongyfarchiadau arbennig i Mia Harries ar ennill cystadleuaeth y merched a Tom Butterworth a Nicholas Evans ar ennill cystadleuaeth eu hoedrannau unigol.

Twrnament rownderi Brianne – Llongyfarchiadau i dîm rownderi blwyddyn 8 a blwyddyn 10 ar ennill twrnament rownderi Brianne eleni.

